# Awdurdod Datblygu Cymru: Cymorth i Fusnesau Cynhenid yng Nghymru

**Adroddiad gan Archwilydd Cyffredinol Cymru**

**Gyflwynwyd I'r Cynulliad Cenedlaethol 9 Mai 2000**

Paratowyd yr adroddiad hwn i'w gwflwyno I Gyulliad Cenedlaethol Cymru o dan o Ddeddf Llwodraeth I Gymru 1999.

John Bourn
Archwilydd Cyffredinol Cymru

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

9 Mai 2000

Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru yn hollol annibynnol o'r Cynulliad Cenedlaethol. Mae'n ardystio cyfrifon y Cynulliad a'i gyrff noddedig cyhoeddus cysylltiedig; ac mae ganddo awdurdod statudol i adrodd i'r Cynulliad ar y cynilded, effeithlonrwydd ac effeithioldeb sydd gab y Cynulliad a'i gyrff cyhoeddus noddedig wrth ddefnyddio ei adnoddau i gyflawni ei weithrediadau.

Paratowyd yr adroddiad hwn ar gyfer Archwilydd Cyffredinol Cymru gan Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru.

Os am fwy o wybodaeth am Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru cysylltwch â :

Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru
23-24 Plas-y-Parc
Caerdydd
CF10 3BA

Tel: 02920 378661

e-bost: ian.summers@nao.gsi.gov.uk
Cyfeiriad safle'r We: http://www.open.gov.uk/nao/home.htm

# Cynnwys

Rhagarweiniad ........................................................................................................................1

Prif ymagweddau a gweithgareddau'r Awdurdod o ran cynorthwyo busnesau cynhenid .........1

Prosesau'r Awdurdod ar gyfer arfarnu, monitro a gwerthuso effeithiolrwydd ei gymorth i fusnesau cynhenid ..........................................................................................................9

Casgliad ...............................................................................................................................14

Atodiad 1: Ymchwiliadiau blaenorol gan y Pwyllgor Materion Cymreig i gymorth i ddiwydiant yng Nghymru..........................................................................................15

Atodiad 2: Enghreifftiau o gynlluniau a mentrau cymorth o dan brif raglenni datblygu busnes yr Awdurdod .......................................................................................................17

Atodiad 3: Prif gyrff sector cyhoeddus neu gyrff a ariennir yn gyhoeddus sy'n rhoi cymorth i fusnesau cynhenid yng Nghymru ..................................................................23

Atodiad 4: Rhaglenni datblygiad economaidd ac a areinnir gan Ewrop ac a weinyddir gan y Cynulliad yng Nghymru ........................................................................................24

# Rhagarweiniad

1. Yn dilyn cais gan Bwyllgor Archwilio'r Cynulliad Cenedlaethol, gofynnodd Archwilydd Cyffredinol Cymru i Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru baratoi trosolwg o weithgareddau Awdurdod Datblygu Cymru gan ganolbwyntio ar:

- nodi prif ymagweddau a gweithgareddau'r Awdurdod o ran cynorthwyo busnesau cynhenid, yng nghyd-destun ei raglenni cyffredinol; ac
- amlinellu prosesau'r Awdurdod ar gyfer arfarnu, monitro a gwerthuso effeithiolrwydd ei gymorth i fusnesau cynhenid.

2. Mae'r adroddiad yn disgrifio ystod o weithgareddau a chyflawniadau yr Awdurdod, gan roi enghreifftiau, ar adeg o gryn newid i'r sefydliad, yn bennaf yn sgîl ei uno â Bwrdd Datblygu Cymru Wledig ac Awdurdod Tir Cymru ar 1 Hydref 1998 ynghyd â'r newidiadau parhaus i gyfrifoldebau'r Awdurdod. Nid yw'r adroddiad yn ceisio rhoi rhestr gynhwysfawr o bob gwasanaeth y mae'r Awdurdod yn ei ddarparu, ond mae'n nodi'n fras fframwaith a mecanweithiau'r Awdurdod ar gyfer cynorthwyo busnesau yng Nghymru. Yn benodol, mae'n dangos bod cymorth yr Awdurdod i fusnesau cynhenid yng Nghymru yn cwmpasu mwy na swyddogaethau datblygu busnes, gan amrywio o sicrhau a pharatoi tir i'w ddatblygu i ddarparu eiddo a seilwaith arall.

3. Wrth baratoi'r adroddiad hwn, bu Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru'n ystyried ymchwiliadau blaenorol i faterion datblygiad economaidd yng Nghymru gan y Pwyllgor Materion Cymreig (Atodiad 1). Mae Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru hefyd yn nodi bod Pwyllgor Datblygiad Economaidd y Cynulliad wedi penodi ymgynghorydd arbenigol annibynnol i ymgymryd ag arolwg o'r cymorth sydd ar gael i fusnesau yng Nghymru.

## Prif ymagweddau a gweithgareddau'r Awdurdod o ran cynorthwyo busnesau cynhenid yng Nghymru

4. Ymhlith busnesau cynhenid Cymru mae cwmnïau sy'n amrywio o unig fasnachwyr i fusnesau mawr o ran maint ac maent yn ymwneud â phob sector, o'r byd amaeth i electroneg, o offer meddygol i gelf a dylunio. Fodd bynnag, mae'r rhan fwyaf o'r busnesau cynhenid yng Nghymru yn fentrau bach a chanolig eu maint, a phob un yn cyflogi llai na 200 o bobl. Mae dros 60,000 o'r mentrau hyn yng Nghymru, sy'n cyflogi

cyfanswm o dros 600,000 o bobl, sef tua deuparth y gweithlu yng Nghymru. Mae'r cwmnïau hyn yn amrywio'n sylweddol a chanddynt wahanol anghenion o fewn eu sectorau a'u lleoliadau daearyddol.

## Nodau ac amcanion yr Awdurdod o ran cynorthwyo busnesau cynhenid

5. Cenhadaeth yr Awdurdod yw "cynyddu ffyniant economaidd pobl Cymru, a sicrhau mai Cymru yw'r lle gorau i fyw a gweithio ynddi, gan hybu gweithgaredd diwydiannol a masnachol sy'n gystadleuol ledled y byd, gyda gweithlu sydd â sgiliau a thâl da mewn amgylchedd da, a rhoi cyfleoedd cyflogaeth sydd wedi eu cysylltu â galluoedd y gweithlu". O fewn cyfanswm ei gyllideb rhaglenni flynyddol (sef £176 miliwn ar gyfer 1999-2000) mae'r Awdurdod yn ymgymryd ag ystod eang o weithgareddau sydd wedi eu hanelu at helpu creu a datblygu busnesau sy'n bodoli eisoes yng Nghymru, hybu mewnfuddsoddiad o'r tu allan i'r rhanbarth a hyrwyddo twf cwmnïau.

6. Mae prif nodau ac amcanion yr Awdurdod o ran cynorthwyo busnesau cynhenid yng Nghymru yr un mor berthnasol i fewnfuddsoddwyr ac maent yn seiliedig ar:

- sicrhau a pharatoi tir i'w ddatblygu, gan gynnwys adfer tir diffaith;
- hyrwyddo darpariaeth o seilwaith i gynorthwyo busnes;
- darparu neu gaffael eiddo diwydiannol neu fasnachol er mwyn annog busnesau i ymsefydlu mewn safleoedd penodol; a
- darparu rhaglenni cymorth a datblygu i helpu'r busnesau i dyfu.

7. Mae'r Awdurdod o'r farn bod pob un o'r pedwar gweithgaredd hyn yn rhannau annatod o'i gymorth i fusnesau cynhenid ac fe'u darparwyd gan yr Awdurdod i wahanol raddau trwy gydol ei oes. Mae cymorth menter yn eithriad i hyn, a gafodd ei drosglwyddo o'r Awdurdod i'r Cynghorau Hyfforddiant a Menter ym 1991. Roedd yr hen Fwrdd Datblygu Cymru Wledig yn parhau i roi cymorth menter yn ardal ei weithrediadau ac mae Adran Canolbarth Cymru'n parhau i gyflawni'r rôl honno fel rhan o'r Awdurdod estynedig. Nid yw'r Cynulliad wedi penderfynu hyd yn hyn ynghylch pa gorff neu gyrff fydd yn ymgymryd â'r cyfrifoldeb dros gymorth menter yng Nghymru yn y dyfodol ar ôl i'r Cynghorau Hyfforddiant a Menter ddirwyn i ben ar 1 Ebrill 2001.

## Prif weithgareddau'r Awdurdod o ran cynorthwyo busnesau cynhenid

### Caffael tir a safleoedd strategol

8. Mae'r Awdurdod yn disgwyl gwario tua £24 miliwn ar gaffael tir a datblygu safleoedd strategol ym 1999-2000, gan gynnwys safleoedd diwydiannol penodol ar gyfer ymestyniadau mawr i fusnesau cynhenid ac ar gyfer mewnfuddsoddwyr fel safleoedd cyflogaeth strategol.

### Adfer tir

9. Mae'r Awdurdod yn disgwyl gwario tua £19 miliwn ar ei raglen adfer tir ym 1999-2000. Nod y rhaglen yw paratoi tir ar gyfer datblygiad gan fusnesau cynhenid a mewnfuddsoddwyr, yn ogystal â chael gwared ar beryglon ffisegol a llygredd.

### Darparu adeiladau

10. Mae'r Awdurdod yn disgwyl gwario tua £36 miliwn ar ddarparu adeiladau parod neu adeiladau a archebwyd ymlaen llaw, yn uniongyrchol ac yn anuniongyrchol, i fusnesau cynhenid a buddsoddwyr ym 1999-2000. Mae'r Awdurdod yn darparu adeiladau parod mewn ardaloedd lle mae diffyg gweithgaredd adeiladu sector preifat a phrinder o eiddo o ansawdd da er mwyn helpu busnesau cynhenid i ymestyn a hybu mewnfuddsoddi. Mae'r Awdurdod hefyd yn darparu adeiladau a archebwyd ymlaen llaw i fusnesau sefydlog allweddol, mewn mentrau ar y cyd gyda'r sector preifat yn bennaf.

### Adfywio cymunedol

11. Mae'r Awdurdod yn disgwyl gwario tua £18 miliwn ar ei raglen adfywio ym 1999-2000. Mae hyn yn darparu projectau sy'n gwella rhagolygon economaidd a masnachol ardaloedd penodol. Targedwyd y rhaglen at ardaloedd penodol yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd.

### Datblygu Busnes

12. Mae'r Awdurdod yn disgwyl gwario tua £23 miliwn ar ei weithgareddau datblygu busnes ym 1999-2000 ac roedd bron hanner y swm hwn ar gyfer cynorthwyo ardaloedd gwledig. Ar gyfer 1999-2000 cynyddodd yr Awdurdod ei gyllideb ar gyfer cymorth i fusnesau cynhenid tua £8 miliwn. Mae'r Awdurdod hefyd wedi cynyddu nifer yr aelodau o staff y mae'n eu defnyddio i gynorthwyo a chynghori cwmnïau cynhenid, yn enwedig yn ei dimau datblygu busnes rhanbarthol.

13. Amcan swyddogaeth datblygu busnes yr Awdurdod yw hybu twf busnes, dyfeisgarwch a chystadleugarwch yn economi Cymru. Mae’r Awdurdod wedi nodi nodweddion allweddol sydd eu hangen i ddatblygu busnes llwyddiannus (cynnyrch, proses, pobl, arian, marchnad, seilwaith) ac maent yn ffurfio’r fframwaith y modelwyd rhaglenni’r Awdurdod arno (Atodiad 2). Mae’r rhaglenni hyn yn canolbwyntio ar:

- mynediad i arian a marchnadoedd;
- trosglwyddo technoleg a dyfeisgarwch;
- hybu’r defnydd o weithgareddau newydd sy’n seiliedig ar y cyfryngau, cysylltiadau cyfoes a gwybodaeth; a
- cynorthwyo datblygu sgiliau ar bob lefel.

Yn ogystal, ym 1998, rhoddodd yr Ysgrifennydd Gwladol bryd hynny gyfrifoldeb penodol dros gynorthwyo’r sector amaeth-fwyd.

14. Mae’r Awdurdod hefyd yn rhoi cymorth ariannol i sefydliadau eraill sy’n ymwneud â darparu cymorth i fusnesau cynhenid yn uniongyrchol. Ymhlith yr enghreifftiau mae:

- cymorth i Gyswllt Busnes Rhanbarthol;
- Canolfan Gwybodaeth Ewropeaidd Cymru;
- Wales Co-operative;
- Chwarae Teg;
- Menter a Busnes;
- Cyngor Celfyddydau Cymru; a
- Ymgyrchoedd Hyrwyddo Cig Oen a Chig Eidion Cymru.

15. Mae Ffigur 1 yn nodi rhai enghreifftiau o astudiaethau achos er mwyn dangos yr ystod o weithgareddau ac ymyriadau gan yr Awdurdod wrth gynorthwyo busnesau cynhenid yng Nghymru. Mae’r rhain yn dangos natur cymorth yr Awdurdod, o ddarparu tir a ffatrïoedd i raglenni datblygu busnes.

## Ffigur 1: Enghreifftiau o gymorth a ddarparwyd i fusnesau cynhenid yng Nghymru

Astudiaeth Achos 1, Canolbarth Cymru
Sefydlwyd y cwmni hwn ym 1983 i weithgynhyrchu byrddau cylchedau argraffedig. Mae'n arbenigo ar y deunyddiau a'r dechnoleg ddiweddaraf gan gyflenwi marchnadoedd amddiffyn, awyrofod a thelathrebu, ymhlith eraill. Mae'r cwmni yn cyflogi dros 100 o bobl ar hyn o bryd a chanddo drosiant o dros £6 miliwn. Ymhlith y cymorth a roddwyd gan yr Awdurdod a'r Bwrdd Datblygu cynt bu cyfnod cychwynnol di-dâl ar les yr uned ffatri, cymorth ariannol i fynychu arddangosfeydd masnachu, a grantiau tuag at brynu cyfarpar cyfalaf ac adeiladau.

Astudiaeth Achos 2, Gogledd Cymru
Cludo pren oedd y busnes gwreiddiol a sefydlwyd ym 1948. Arallgyfeiriodd y cwmni ym 1987 yn llwyddiannus i gynhyrchu pyst ffensys. Ym 1999 cyflogodd y cwmni dros 30 o bobl ac roedd ganddo drosiant o £1.8 miliwn. Ymhlith y cymorth a roddwyd gan yr Awdurdod yn ystod y blynyddoedd diweddar bu grantiau ar gyfer datblygu'r safle, cymorth gyda chostau ymgynghorol, cymorth marchnata o dan raglen Source Wales, a chymorth i osod cyfarpar arbed ynni o dan raglen partneriaeth gyda'r Awdurdod a Scottish Power.

Astudiaeth Achos 3, De ddwyrain Cymru
Mae'r cwmni'n cynhyrchu sbyngau arbenigol i fatresi a chlustogau cymorth ar gyfer y farchnad gofal iechyd, a'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol yn bennaf. Ar ôl ei sefydlu symudodd y cwmni o'i leoliad gwreiddiol i leoliad arall sef safle ffatri barod a adeiladwyd ar dir a gafodd ei adfer a'i ailddatblygu gan yr Awdurdod a phartner menter ar y cyd, ar safle hen lofa a golosgfa. Drwy gyfrwng rhaglenni datblygu busnes yr Awdurdod derbyniodd y cwmni gymorth a chyngor ar ddatblygu cynnyrch newydd a chymorth technoleg sy'n datblygu, cymorth er mwyn sefydlu Cynllun Cwmni sy'n Dysgu a Grant Gweithredu Technoleg ar gyfer system rheoli stoc gyfrifiadurol a ddyluniwyd yn unswydd ar ei gyfer. Cynyddwyd cystadleugarwch trwy gyfranogi mewn un o'r rhaglenni Source Wales sef 'Lean Methodologies'.

Astudiaeth Achos 4, De ddwyrain Cymru
Wedi ei sefydlu ym 1999, mae'r cwmni'n gweithgynhyrchu llen blastig at ddefnydd y sector bwyd, sector pethau ymolchi a'r sector fferyllol. Mae'n cyflogi tua 25 o bobl a chanddo drosiant o £1.4 miliwn. Fel rhan o'r arian cychwyn cafodd grantiau Cymorth Dethol Rhanbarthol gan y Swyddfa Gymreig gynt, ac mae'r cwmni wedi derbyn cynnig mewn egwyddor o'r Cynulliad Cenedlaethol i'w gynorthwyo i ymestyn ymhellach a chreu 20 o swyddi newydd. Ymhlith y cymorth a roddwyd gan yr Awdurdod i'r cwmni bu cymorth ariannol trwy gronfa benthyciadau bach yr Awdurdod a chymorth mentora.

Astudiaeth Achos 5, De orllewin Cymru
Dechreuodd y busnes yn y ddeunawfed ganrif fel melin wlân fach o dan berchenogaeth deuluol ac fe'i gweithredwyd gan y teulu presennol er 1912. Mae'r cwmni'n dylunio, gwehyddu a phrosesu brethyn gan gynhyrchu ystod eang o ffabrig dodrefnu. Yn adnabyddus yn y wlad hon a thramor, mae'r cwmni'n gwerthu trwy fanwerthwyr mawr yn ogystal ag allfannau bach annibynnol ac yn uniongyrchol i'r cyhoedd. Ymhlith y cymorth a roddwyd i'r busnes gan yr Awdurdod bu cyfranogi ym menter yr Awdurdod ar gyfer mentora uwch reolwyr ac, yn fwy diweddar, cymorth trwy fenter dillad Source Wales yr Awdurdod.

Astudiaeth Achos 6, De orllewin Cymru
Yn wreiddiol gweithgynhyrchodd y cwmni amrywiaeth o fwydydd sych i anifeiliaid anwes mewn cyfansymiau mawr a'u gwerthu'n bennaf trwy sefydliadau cydweithredol amaethyddol a marsiandwyr annibynnol ledled Cymru. Yn ystod y 1990au, ymestynnodd y cwmni i gynhyrchu bwydydd sych a bwydydd tun i anifeiliaid anwes, ac ym 1999 lansiodd ystod newydd o fwydydd tun o'r ansawdd gorau. Mae'r cwmni'n cyflogi tua 40 o staff. Ymhlith y cymorth a roddwyd gan yr Awdurdod bu grant datblygu eiddo tuag at gostau ffatri/warws newydd a chreu hyd at 12 o swyddi newydd, a chymorth ymgynghorol o dan raglen datblygu marchnad yr Awdurdod.

Astudiaeth Achos 7, De orllewin Cymru
Sefydlwyd y cwmni ym 1994, gan ymestyn y gweithlu craidd o 4 i 30 o bobl ym 1999 ac i 40 yn 2000. Mae'r cwmni'n dylunio ac yn gweithgynhyrchu tanceri arbennig at ddiben gwaredu amryw ddeunyddiau gwastraff o leoliadau cyfyngedig a chymharol anhygyrch. Bu'r Awdurdod yn rhoi cymorth o dan ei raglen datblygu marchnad De Cymru sef cynllun peilot ar gyfer mentrau bach a chanolig eu maint yn Ne Orllewin Cymru. Mae'r rhaglen datblygu marchnad yn cynnig cyngor a chymorth arbenigol gan ymgynghorwyr busnes, yn enwedig o ran strategaethau marchnata a datblygu busnesau newydd.

Ffynhonnell: Awdurdod Datblygu Cymru

## Cyflwyno cymorth i fusnesau cynhenid

16. Mae strwythur trefniannol yr Awdurdod ar gyfer cyflawni cymorth yn seiliedig ar bedair adran ranbarthol sy'n cwmpasu Gogledd Cymru, Canolbarth Cymru, De Orllewin a De Ddwyrain Cymru ynghyd â phedair adran ar draws Cymru sy'n cwmpasu'r gwaith o ddatblygu busnes, datblygu tir, gweithgareddau rhyngwladol a marchnata a pholisi strategol. Mae ffigur 2 yn crynhoi cyfraniad prif adrannau gweithredol yr Awdurdod wrth gynnal busnesau cynhenid yng Nghymru. Mae adrannau'r Awdurdod wedi eu staffio gan bobl broffesiynol a chanddynt brofiad a sgiliau sy'n ategu gweithgareddau rhaglenni'r Awdurdod trwy'r cyngor a'r cymorth y maent yn eu darparu i fusnesau unigol yng Nghymru.

17. Mae'r Awdurdod yn ymgymryd â rhan fwyaf o'i gymorth i fusnesau cynhenid mewn partneriaeth gydag ystod eang o gyrff yn y sector cyhoeddus a'r sector preifat. Ymhlith prif bartneriaid sector cyhoeddus strategol mae'r Cynulliad, yr awdurdodau unedol a'r Cynghorau Hyfforddiant a Menter (Atodiad 3). Yn y broses hon Rhwydwaith Cyswllt Busnes yw'r prif ddull o gyflwyno cymorth i fusnesau newydd a busnesau sy'n bodoli eisoes yng Nghymru. Mae'r Awdurdod hefyd yn ymgymryd â'i weithgareddau cymorth o fewn cyd-destun rhaglenni datblygu economaidd ehangach yng Nghymru a weinyddir gan y Cynulliad ac a ariennir gan Ewrop (Atodiad 4).

## Ffigur 2: Strwythur trefniannol Awdurdod Datblygu Cymru ar gyfer cyflwyno cymorth i fusnesau cynhenid yng Nghymru

**Adran Datblygu Busnes**
Mae Adran Datblygu Busnes yr Awdurdod yn canolbwyntio ar ystod o raglenni cymorth ar gyfer busnesau yng Nghymru megis rhoi mynediad i arian a marchnadoedd, hybu dyfeisgarwch a newid technoleg, annog defnyddio dulliau cyfathrebu cyfoes, technoleg gwybodaeth a'r cyfryngau, a rhoi cymorth penodol i'r sector amaeth-fwyd. Ymhlith swyddogaeth datblygu busnes yr Awdurdod mae mentrau i hyrwyddo ac annog creu mentrau newydd yng Nghymru yn ogystal â gweithgareddau i hybu twf a datblygiad busnesau sy'n bodoli eisoes yng Nghymru. Un o sgîl-effeithiau uno'r Awdurdod, Bwrdd Datblygu Cymru ac Awdurdod Tir Cymru yw ymestyn swyddogaeth datblygu busnes â'r nod o gynnal mentrau bach a chanolig eu maint a chymunedau gwledig yn fwy effeithiol yn ogystal â busnesau canolig a mawr o ran maint. Mae aelodau o staff Adran Datblygu Busnes yr Awdurdod wedi eu lleoli ym mhencadlys yr Awdurdod yng Nghaerdydd yn ogystal â'i bedair swyddfa ranbarthol.

**Adran Tir**
Mae Adran Tir yr Awdurdod yn cynnal a hybu'r gwaith o greu cyfleoedd datblygu tir ymhob rhan o Gymru lle ceir anawsterau marchnad, ar gyfer busnesau cynhenid a mewnfuddsoddwyr fel ei gilydd. Mae'r Adran Tir yn cyflawni ei weithgareddau ymgynnull, datblygu a gwaredu tir mewn cydweithrediad â'r sector cyhoeddus a'r sector preifat. Mae'r Adran yn ogysta a'r pedair adran yr awrdurdod yn ymgymryd ar weithgareddau sy'n ymwneud â thir fel y bo angen, gan gynnwys safleoedd cyflogaeth strategol, cynlluniau adfywio trefol a gwella trefi. Mae aelodau o staff Adran Tir yr Awdurdod wedi eu lleoli ym mhencadlysoedd yr Awdurdod yng Nghaerdydd a Llanelwy yn bennaf.

**Adran Ryngwladol a Marchnata**
Yn ogystal â bod yn gyfrifol am ddenu mewnfuddsoddiad i Gymru, mae Adran Ryngwladol a Marchnata'r Awdurdod yn hybu cymorth busnes i gwmnïau cynhenid yng Nghymru.

**Adran Gogledd Cymru**
Mae Adran Gogledd Cymru'r Awdurdod yn rhoi cymorth datblygu economaidd a chymdeithasol i ardal a chanddi boblogaeth o dros 600,000 o bobl (sef 21 y cant o boblogaeth Cymru) gan gwmpasu'r sir fwyaf llewyrchus a'r sir leiaf llewyrchus yng Nghymru. Ymhlith y mentrau diweddar ar gyfer cynorthwyo busnesau cynhenid yn y rhanbarth mae'r Awdurdod wedi defnyddio gweithredwyr cymorth gwledig ychwanegol er mwyn gweithio gyda busnesau a chymunedau gwledig yn y sector bwyd, darparu rhaglen amaeth-fusnes, rhoi grantiau i broseswyr bwyd a darparu arolygon busnes i ffermwyr ifanc. Aseswyd y diwydiannau coedwigaeth a thirlun gan yr Adran hefyd er mwyn llywio'r gwaith o ddatblygu mentrau cymorth priodol ar gyfer busnesau yn y sectorau hyn.

**Adran Canolbarth Cymru**
Mae Adran Canolbarth Cymru'r Awdurdod yn darparu gwasanaethau cymorth i boblogaeth o dros 230,000 o bobl (sef 8 y cant o boblogaeth Cymru), ond sy'n cwmpasu tua 40 y cant o arwynebedd tir Cymru. Mae'r Adran yn rhoi blaenoriaeth i gynorthwyo busnesau sydd newydd eu sefydlu, datblygu busnesau cynhenid a denu buddsoddiad priodol o'r tu allan i Gymru. Ymhlith y gweithgareddau diweddar sy'n cynorthwyo busnesau cynhenid bu rhaglen amaeth-fusnes gynhwysfawr, cymorth ar gyfer dyfeisgarwch a thechnoleg o fewn mentrau bach a chanolig eu maint a rhaglen effeithlonrwydd ynni. Mae'r Adran yn cynorthwyo'r rhwydwaith Cyswllt Busnes, gan gynnwys darparu gwasanaeth ymgynghorol i fanwerthwyr gwledig.

**Adran De Orllewin Cymru**
Mae Adran De Orllewin Cymru'r Awdurdod yn gwasanaethu poblogaeth o dros 650,000 (sef 22 y cant o boblogaeth Cymru). Mae'r ardal yn amrywio o ran ei heconomi, gan ddibynnu ar amaethyddiaeth a busnesau bach cynhenid yn fawr iawn. Cynhaliodd yr Adran gynllun peilot o Gynllun Mentora'r Awdurdod ar gyfer rhannu profiad busnes yng Nghymru wledig. Ymhlith y mentrau diweddar ar gyfer cynorthwyo busnesau cynhenid mae gweithrediadau o dan raglen Source Wales yr Awdurdod yn Aberdaugleddau a chyfranogi mewn nifer o fentrau ar y cyd gydag awdurdodau lleol a phartneriaid eraill.

**Adran De Ddwyrain Cymru**
Mae Adran De Ddwyrain Cymru'r Awdurdod yn cwmpasu ardal a chanddi boblogaeth o 1.2 miliwn o bobl (sef 48 y cant o boblogaeth Cymru), a gweithlu o tua 650,000 (sef tua 50 y cant o weithlu Cymru). O fewn yr ardal hon mae pocedi o amddifadedd economaidd a chymdeithasol, yn enwedig yng Nghymoedd De Cymru. Ymhlith y cymorth i fusnesau cynhenid bu ystod o raglenni arbenigol wedi eu llunio i wella cystadleugarwch mentrau bach a chanolig eu maint trwy gyflwyno technoleg fodern a thrwy fabwysiadu 'arfer gorau'o safon byd-eang o dan raglen Source Wales.

Ffynhonnell: Awdurdod Datblygu Cymru

## Blaenoriaethau a rhaglenni newydd

18. Yn erbyn cefndir Strategaeth Datblygiad Economaidd Cymru y Cynulliad, bu'r Awdurdod yn nodi pedwar maes blaenoriaeth allweddol newydd ac mae'n datblygu strwythur rhaglenni newydd (Ffigur 3). Mae'r Awdurdod yn bwriadu ailgyfeirio ei weithgareddau a'i adnoddau yn ystod y tair blynedd nesaf tuag at ei flaenoriaethau strategol newydd trwy gyfuniad o wella'r rhaglenni sy'n bodoli eisoes sy'n cyfrannu at y blaenoriaethau hyn fwyaf, gan gwtogi ar rai eraill a datblygu rhaglenni newydd â'r nod o greu ffyniant ar draws Cymru.

**Ffigur 3: Blaenoriaethau strategol a rhaglenni cyflwyno newydd ar gyfer datblygiad economaidd yng Nghymru**

**Blaenoriaethau strategol 2000/01 hyd at 2003/04**

Rhyngwladoldeb — Helpu busnesau yng Nghymru i gyflawni safonau byd-eang, wrth i fewnfuddsoddiad chwarae rhan hanfodol yn y broses hon.

Cynyddu gwerth a ychwanegwyd — Creu swyddi â sgiliau a thâl uwch, gan gynnwys camau i sicrhau bod gan fusnesau a leolir yng Nghymru (rhai cynhenid a rhai o'r tu allan i Gymru) fynediad i dechnoleg gwybodaeth a dulliau cyfathrebu mwyaf effeithiol.

Datblygiad cyfranogiad — Galluogi mwy o bobl i gael gwaith addas, wrth i'r Awdurdod weithio â sefydliadau eraill i nodi rhwystrau sy'n atal pobl rhag gweithio a'u goresgyn gan gynyddu nifer y cyfleoedd gwaith yng Nghymru.

Datblygu mentergarwch — Helpu mwy o bobl i gychwyn busnesau newydd yng Nghymru, trwy hybu diwylliant mentergarwch, gan ganolbwyntio ar bobl ifanc yn benodol.

**Rhaglenni cyflwyno**

Rhyngwladoldeb — Annog cwmnïau ac unigolion i gyflawni safonau byd-eang ac edrych y tu hwnt i Gymru.

Datblygu cystadleugarwch — Gwella effeithlonrwydd busnes a masnach, gan gynnwys cynnal datblygiad cadwyni a rhwydweithiau cyflenwi, cynnal defnyddio technoleg newydd, gwella mynediad i ariannu busnes a darparu eiddo ar gyfer busnesau newydd neu fusnesau sy'n ymestyn.

Datblygu cyfranogiad — Cynyddu cyfleoedd gwaith, gan gynnwys annog dysgu gydol oes, datblygu sgiliau a goresgyn unrhyw faterion sy'n rhwystro'r gweithlu rhag cyfranogi.

Datblygu mentergarwch — Cynnal busnesau sy'n cychwyn a chynorthwyo eu twf a symbylu diwylliant mentergarwch.

Mewnfuddsoddiad — Hybu buddsoddiad busnesau newydd yng Nghymru, gan gynnwys marchnata rhyngwladol a darparu eiddo a adeiladwyd ar archeb wedi ei deilwra i anghenion unigol buddsoddwyr o'r tu allan i Gymru.

Seilwaith Busnes — Darparu safleoedd strategol mewn ardaloedd lle ceir yr angen mwyaf, eiddo parod, gwaith datblygu safleoedd a seilwaith arall megis telathrebu.

Adfywio — Adfer tir, lleihau peryglon amgylcheddol, cynnal gwelliannau trefol, gwledig ac amgylcheddol; a darparu ariannu cychwynnol ar gyfer mentrau cymuned.

Cymorth ar gyfer cyrff eraill — Darparu ariannu craidd wrth gynnal darparwyr trydydd parti gwasanaethau a chyfleusterau datblygu economaidd, yn enwedig yn ymwneud â themâu trawsbynciol.

Ffynhonnell: Awdurdod Datblygu Cymru

19. Mae'r Cynulliad hefyd yn ddiweddar wedi rhoi cynnig gerbron i greu cwmni newydd, sef Finance Wales, a fydd yn gyfrifol am ddarparu cymorth dyled, ecwiti a chymorth rheoli i fentrau bach a chanolig eu maint yng Nghymru nad ydynt yn gallu codi arian trwy ffynonellau masnachol. O dan y cynigion hyn bydd Finance Wales yn is-gwmni dan berchenogaeth yr Awdurdod yn gyfan gwbl, ac yn atebol i'r Cynulliad.

## Gweithgareddau ymchwil ac ymgynghorol yr Awdurdod

20. Mae'r Cynulliad yn ymgymryd â gwaith ymchwil a dadansoddiad economaidd i lywio ei weithgareddau sy'n ymwneud â datblygu rhaglenni a chynorthwyo projectau ac i nodi anghenion busnes a chyfleoedd marchnata. Yn ei Gynllun Busnes ar gyfer 1999-2000, nododd yr Awdurdod y byddai'n gwneud dadansoddiad o'r economi yng Nghymru er mwyn rhoi sylfaen ar gyfer ei Gynllun Corfforaethol a'i amcanion gweithredol strategol yn 2000-20003, ac er mwyn llywio'r trafodaethau ynglŷn â'r strategaeth datblygu economaidd tymor hwy yng Nghymru. Ym mis Rhagfyr 1998 sefydlwyd panel gan yr Awdurdod, sef grŵp bach o ymarferyddion datblygu economaidd a dadansoddwyr polisi i ymgymryd â dadansoddiad economaidd o Gymru. Cyhoeddwyd adroddiad y panel ym mis Mai 1999 a daeth ei brif gasgliadau yn sylfaen i Gynllun Corfforaethol yr Awdurdod ar gyfer 2000-2003.

21. Ymgymerodd yr Awdurdod hefyd â phrif astudiaeth o anghenion busnesau cynhenid yng Nghymru. Y bwriad yw y bydd y gwaith yn arolwg diffiniadol o fusnesau bach a chanolig eu maint yng Nghymru. Cynigiwyd yr astudiaeth hon ar dendr gan yr Awdurdod yn gynnar yn 2000 ac mae'n bwriadu cyhoeddi'r canlyniadau pan gaiff ei gwblhau. Gohiriwyd cychwyn ar yr astudiaeth hon oherwydd trafodaethau estynedig rhwng yr Awdurdod a'r Cynulliad ynglŷn â nodau a ffocws yr ymchwil arfaethedig.

# Prosesau'r Awdurdod ar gyfer arfarnu, monitro a gwerthuso'r cymorth y mae'n ei ddarparu i fusnesau cynhenid

22. O fewn ei raglenni gweithredol, mae'r Awdurdod yn mabwysiadu ymagwedd sy'n seiliedig ar brojectau tuag at ddarparu cymorth i fusnesau yng Nghymru, waeth beth fo eu tarddiad na phwy sy'n berchen arnynt. Mae'r Awdurdod yn nodi ei ofynion rheoli project allweddol yn ei God Ymarfer.

## Gweithdrefnau'r Awdurdod ar gyfer arfarnu a chymeradwyo projectau i'w cynorthwyo

23. Ceir crynodeb o brif nodweddion gweithdrefnau arfarnu a chymeradwyo yr Awdurdod yn Ffigur 4. Mae'r Awdurdod yn gweithredu prosesau a gweithdrefnau penodol ar gyfer mentrau ar y cyd, gan adlewyrchu'r ystod eang o gyrff sector cyhoeddus a phreifat y mae'n ymdrin â hwy.

24. Caiff trefniadau arfarnu projectau'r Awdurdod eu defnyddio ar gyfer projectau cyfalaf a phrojectau refeniw sydd dros £25,000 ac, mewn egwyddor, ar gyfer projectau refeniw o dan £25,000. Mae gan y Prif Weithredwr awdurdodaeth ddirprwyedig i gymeradwyo projectau (hyd at £4 miliwn ar gyfer projectau cyfalaf mawr a hyd at £400,000 ar gyfer projectau refeniw mawr). Cyflwynir adroddiad ffurfiol i Fwrdd yr Awdurdod ar bob project a gymeradwywyd gan y Prif Weithredwr neu'r Prif Gyfarwyddwr sydd dros £500,000. Mae'n rhaid i brojectau sydd dros derfynau dirprwyedig yr Awdurdod gael eu cymeradwyo gan y Cynulliad Cenedlaethol.

**Ffigur 4: Crynodeb o weithdrefnau arfarnu a chymeradwyo'r Awdurdod**

Arfarnu project

Ymhlith gofynion arfarnu projectau'r Awdurdod mae:

- Cadarnhau bod y project o fewn pwerau yr Awdurdod ar gyfer cymorth;
- Arfarnu'r opsiynau ar gyfer cyflwyno'r project arfaethedig;
- Archwilio a chofnodi mewnbwn ac allbwn arfaethedig y project;
- Sicrhau cymeradwyaeth ysgrifenedig gan y rhai a chanddynt awdurdodaeth ddirprwyedig, cyn cytuno i gynorthwyo project mewn egwyddor a chyn rhoi ymrwymiad i gynorthwyo project.

Cymeradwyo project

Ymhlith gofynion cymeradwyo projectau'r Awdurdod mae:

- Defnydd o fformat safonol ar gyfer cymeradwyo cynigion;
- Arolwg o gynigion drafft gan eraill yn y byd busnes;
- Uwch Dîm Rheoli a Bwrdd yr Awdurdod yn ystyried y cynigion cyn i'r Bwrdd eu cymeradwyo neu'u gwrthod yn ffurfiol;
- Fformat safonol ar gyfer unrhyw gynigion dilynol ar gyfer yr un project i'w cymeradwyo.

Ffynhonnell: Awdurdod Datblygu Cymru

## Gweithdrefnau'r Awdurdod ar gyfer monitro cynnydd y projectau a gymeradwyir

25. Mae'r Awdurdod yn gweithredu o fewn fframwaith o dargedau strategol. Fe'u pennwyd gynt gan yr Ysgrifenyddol Gwladol ac mae'r Cynulliad bellach yn eu pennu. Maent yn ymwneud â chreu a diogelu swyddi, sicrhau buddsoddiad sector preifat ac adfer a

datblygu tir i'w ddatblygu. Mae pob adran o'r Awdurdod yn cyflwyno adroddiad rheoli misol i Fwrdd yr Awdurdod, gan fanylu ar weithgareddau ac allbynnau gwirioneddol a gweithgareddau ac allbynnau arfaethedig ynghyd ag unrhyw faterion allweddol i sylw'r Bwrdd. Mae'r broses hon yn cynnwys cyflwyno adroddiadau ar faterion pwysig sy'n ymwneud â chynnydd projectau cymorth busnesau cynhenid sy'n deillio o waith monitro projectau rheolaidd yr Awdurdod.

26. Mae gwaith monitro'r Awdurdod yn dangos ei fod wedi bod yn llwyddiannus yn ystod y blynyddoedd diweddar wrth adfer tir a chwblhau projectau adeiladu a seilwaith unigol at ddiben cynorthwyo datblygiad busnesau cynhenid. Er enghraifft:

- adfer 350 erw o hen safle Glofa Oakdale er mwyn darparu dros 170 erw o dir fel cyfle datblygu yn y Cymoedd;
- adeiladu deg ffatri, sef cyfanswm o tua 113,000 troedfedd sgwâr o lawr, ledled Canolbarth Cymru, gan gynnwys unedau parod ym Machynlleth, Llanfair ym Muallt, Aberteifi, Talgarth a Llandrindod ac adeiladau wedi'u harchebu yn y Bala, Machynlleth, Dolgellau a'r Gelli;
- adeiladu uned fusnes 25,000 troedfedd sgwâr ar Barc Diwydiannol Mona, Ynys Môn, fel datblygiad wedi ei deilwra'n arbennig i anghenion y diwydiant bwyd;
- cwblhau unedau swyddfeydd bach 20,000 troedfedd sgwâr ar Barc Diwydiannol Llanelwy;
- cwblhau cyfleuster pecynnu a phrosesu cig ym Merthyr Tudful a'r nod yw creu dros 660 o swyddi newydd;
- cwblhau canolfan hyfforddi sgiliau yn y Barri fel rhan o fenter ar y cyd gyda Chyngor Bro Morgannwg, y Swyddfa Gymreig gynt, Cyngor Hyfforddiant a Menter De Morgannwg a Choleg y Barri

27. Bu'r Awdurdod yn llwyddiannus hefyd yn ystod y blynyddoedd diweddar wrth nodi a sicrhau cyfleodd i fusnesau cynhenid yng Nghymru. Er enghraifft, ym 1998-99 nododd yr Awdurdod gyfleoedd busnes ar gyfer cwmnïau cynhenid yng Nghymru a oedd yn werth dros £40 miliwn ac roedd dros £10 miliwn o'r swm hwnnw mewn electroneg, peirianneg a modureg yn Ewrop, sy'n sectorau cystadleuol iawn. Sicrhawyd £12 miliwn bellach o fusnes ym 1998-99 trwy raglen yr Awdurdod ar gyfer busnesau bach cynhenid

sef Source Wales, gan gynnwys archeb £1 miliwn i Cambrian Engineering oddi wrth Lywodraeth Groeg ar gyfer gweithgynhyrchu tyrrau tyrbin gwynt.

## Gweithdrefnau'r Awdurdod ar gyfer gwerthuso llwyddiant y projectau a gynorthwyir ganddo

28. Yn ogystal â'i waith parhaus o fonitro projectau, mae'r Awdurdod yn cynnal rhaglen dreigl o astudiaethau gwerthuso ar draws ystod gyfan ei weithrediadau. Er mwyn bod yn annibynnol ar reolwyr gweithredol yr Awdurdod cynhaliwyd yr astudiaethau hyn gan ymgynghorwyr allanol. Adran Polisi Strategol ganolog yr Awdurdod sy'n rheoli'r rhaglen astudio. Yn ystod y blynyddoedd diweddar bu'r meysydd a werthuswyd yn cynnwys rhaglen Source Wales yr Awdurdod (1996), ei raglen newid technoleg (1997) a'r gweithgareddau mewnfuddsoddi (1997).

29. Mae canlyniadau gweithgareddau monitro a gwerthuso'r Awdurdod yn dangos, ymhlith pethau eraill, y gydberthynas rhwng creu a datblygu busnesau cynhenid ar y naill law a denu mewnfuddsoddiad ar y llaw arall. Er enghraifft, gall mewnfuddsoddi greu cyfleoedd cadwyn gyflenwi newydd ar gyfer cwmnïau cynhenid; ac mae rhaglen Source Wales yr Awdurdod wedi ei hanelu at hybu hyn. Gall mewnfuddsoddwyr hefyd llwyr ymsefydlu yng Nghymru ymhen amser. Dengys Ffigur 5 enghreifftiau o astudiaethau achos i ategu'r pwyntiau hyn.

**Ffigur 5: Enghreifftiau o astudiaethau achos o'r gydberthynas rhwng mewnfuddsoddiad a busnesau cynhenid yng Nghymru**

Astudiaeth achos 8, Gogledd Cymru
Roedd y busnes teuluol sefydlog hwn yn fusnes 'mewnfuddsoddi' o Loegr (Manceinion) yn wreiddiol ac mae bellach wedi cynyddu o 20 o gyflogeion ym 1962, i 75 ym 1990, ac i dros 120 ym 1999. Mae'r cwmni'n gweithgynhyrchu ystod eang o ddillad a chanddo drosiant o dros £10 miliwn ar hyn o bryd. Bu'r cwmni'n derbyn amrywiaeth o gymorth yn ystod y cyfnod hwn gan Gymdeithas Datblygu Diwydiant Canolbarth Cymru, Cyngor Trefol y Bala, a'r Bwrdd Datblygu cynt. Fel rhan o'i gymorth mae'r Bwrdd Datblygu wedi annog y cwmni yn y 1980au cynnar i ymuno â rhaglen a drefnwyd gan Ganolfan Rheoli Rhyngwladol Cymru i ymledu sylfaen ei werthiannau, darparu grantiau datblygu yn y 1990au i gynorthwyo ymestyn, a darparu cymorth ymgynghorol.

Astudiaeth achos 9, Canolbarth Cymru
Sefydlwyd yr oriel gelf a'r cwmni dylunio ymgynghorol hwn ym 1995 a bu'n cynyddu ei drosiant o dipyn i beth flwyddyn ar ôl blwyddyn, gan ymestyn ym 1999 trwy ychwanegu gweithdy a stiwdio. Mae'r busnes yn gwerthu ystod o grefftwaith ac offer tŷ a wneir yn lleol yn ogystal â darparu gwasanaeth dylunio ymgynghorol i gwsmeriaid yn y diwydiant ymhob rhan o'r Deyrnas Gyfunol. Sefydlwyd y busnes gan y sylfaenydd ar ôl gweithio am gyfnod fel dyluniwr diwydiannol ar ei liwt ei hun yn Llundain. Mae'r busnes wedi derbyn cymorth gan yr Awdurdod a'r rhwydwaith Cyswllt Busnes.

Astudiaeth achos 10, De orllewin Cymru
Mae'r cwmni hwn, sef un o'r prif gwmnïau yn y byd ar gyfer electroneg pŵer, yn sefydlu ffatri 100,000 troedfedd sgwâr, a ddylai arwain at greu dros 500 o swyddi yn y pen draw. Mae'r Awdurdod yn adeiladu ffatri ar gyfer y cwmni. Disgwylir y bydd presenoldeb y cwmni'n symbylu'r diwydiant cyflenwadau electronig lleol.

Ffynhonnell: Awdurdod Datblygu Cymru

# Casgliad

30. Mae'r adroddiad hwn wedi ceisio rhoi disgrifiad bras o'r ystod eang o gymorth a gwasanaethau y mae Awdurdod Datblygu Cymru'n eu rhoi i fusnesau cynhenid yng Nghymru. Fel mae'r astudiaethau achos yn yr adroddiad yn ei nodi, mae gweithgareddau a rhaglenni'r Awdurdod ar waith ledled Cymru, gan gwmpasu'r gwaith o adfer a datblygu tir, creu'r seilwaith angenrheidiol, annog cwmnïau i leoli mewn safleoedd penodol yng Nghymru a'u cynorthwyo i wneud hyn, a rhoi cymorth a chyngor ar ddatblygu busnes ymhellach. Mae yna gyswllt hefyd rhwng cymorth yr Awdurdod i fusnesau cynhenid a'i ymdrechion i sicrhau mewnfuddsoddiad yng Nghymru: mae busnesau cynhenid yn elwa ar bresenoldeb mewnfuddsoddwyr, yn uniongyrchol ac anuniongyrchol, yn enwedig o ran hybu gwerthiannau a datblygu cyflenwyr. Mae'r astudiaethau achos a'r enghreifftiau eraill sydd yn yr adroddiad hwn hefyd yn rhoi amcan o effaith gweithgareddau'r Awdurdod.

31. Mae'r Awdurdod yn gweithredu o fewn fframwaith a bennir gan y Cynulliad, gan gydweithio â phartneriaid eraill yn y sector cyhoeddus a'r sector preifat fel ei gilydd. Fel y dengys yr adroddiad, mae strwythur trefniannol a gweinyddol cadarn yn sylfaen i weithgareddau'r Awdurdod sydd wedi eu hanelu at gyflwyno cymorth i fusnesau cynhenid yng Nghymru yn ogystal â sicrhau mewnfuddsoddiad. Yn olaf, cyflawnir gwaith yr Awdurdod gan bobl broffesiynol, brofiadol sy'n gallu ategu gweithgareddau'r Awdurdod trwy'r cyngor a'r cymorth y maent yn gallu eu rhoi.

# Atodiad 1: Ymchwiliadau blaenorol i gymorth i ddiwydiant yng Nghymru gan y Pwyllgor Materion Cymreig

1. Ym mis Tachwedd 1998 cyhoeddodd y Pwyllgor Materion Cymreig brif adroddiad ar faterion sy'n ymwneud â datblygiad economaidd yng Nghymru, gan gynnwys y cymorth a roddir i fusnesau cynhenid a mewnfuddsoddwyr a'r gydberthynas rhyngddynt[1]. Roedd hyn yn dilyn adroddiad cynharach y Pwyllgor ym mis Chwefror 1998 ar effaith cynigion datganoli'r Llywodraeth ar ddatblygu economaidd a llywodraeth leol yng Nghymru[2]. Prif amcan y Pwyllgor yn yr adroddiadau hyn oedd ymchwilio i'r cydbwysedd priodol rhwng cynorthwyo busnesau cynhenid a hybu mewnfuddsoddi, ac archwilio'r ystod o gymorth sydd ar gael i fentrau yng Nghymru o ran trefnu, ariannu a seilwaith.

2. Cyflwynodd y Pwyllgor nifer o sylwadau ac argymhellion yn y meysydd hyn[3]. Prif bryder y Pwyllgor oedd y dylid newid y pwyslais a'r ariannu o blaid busnes cynhenid. Yn ogystal, roedd yn achos pryder gan y Pwyllgor i ba raddau yr oedd yr Awdurdod a sefydliadau sector cyhoeddus eraill yn dyblygu eu hymdrechion a bod gwahanol rolau'r sefydliadau amrywiol heb gael eu hystyried yn llawn. Roedd y Pwyllgor hefyd yn teimlo ei bod yn bwysig i'r Awdurdod estynedig dderbyn yr adnoddau angenrheidiol i gyflawni ei ystod benodol o swyddi.

3. Mewn ymateb, nododd y Llywodraeth ei bod yn rhoi pwys mawr ar y ffaith bod buddsoddwyr cynhenid a mewnfuddsoddwyr yn cael eu trin yn deg. Cytunodd y Llywodraeth â'r Pwyllgor Materion Cymreig bod angen canolbwyntio ar ddatblygu busnesau cynhenid yng Nghymru, ond roedd o'r farn nad oedd hyn yn golygu cwtogi ar y

[1] Pwyllgor Materion Cymreig, Sesiwn Pedwerydd Adroddiad 1997-98, "Investment in Industry in Wales", HC821, 10 Tachwedd 1998.

[2] Pwyllgor Materion Cymreig, Sesiwn Adroddiad Cyntaf 1997-98, "The Impact of the Government's Devolution Proposals on Economic Development and Local Government in Wales, HC329, 17 Chwefror 1998", a fu'n ystyried mater mewnfuddsoddiad yn erbyn twf cynhenid yn fyr (paragraffau 38-45).

[3] Pwyllgor Materion Cymreig, Sesiwn Pedwerydd Adroddiad 1997-98, "Investment in Industry in Wales", HC821, 10 Tachwedd 1998, paragraffau 24, 41 a 50 yn benodol).

gwaith o hybu Cymru fel lleoliad ar gyfer buddsoddiad o dramor [4]. Ynglŷn ag adnoddau'r Awdurdod, nododd y Llywodraeth ei bod, wrth bennu lefel cyllideb rhaglenni gros yr Awdurdod ar gyfer 1999-2000, wedi parhau i gynyddu cymorth grant yr Awdurdod gan ystyried yn realistig lefelau'r incwm y gallai'r Awdurdod ei hun eu cynhyrchu[5]. Nododd y Llywodraeth mai mater gweithredol i'r Awdurdod yn bennaf oedd lefel gwariant ar raglenni unigol.

[4]Pwyllgor Materion Cymreig Sesiwn 1998-99, Adroddiad Arbennig Cyntaf, "Government Response to the Fourth Report of the Welsh Affairs Committee (Session 1997-98) - Investment in Industry in Wales", HC173, 20 Ionawr 1999, paragraffau 15 & 16.

[5]Pwyllgor Materion Cymreig Sesiwn 1998-99, Adroddiad Arbennig Cyntaf, "Government Response to the Fourth Report of the Welsh Affairs Committee (Session 1997-98) - Investment in Industry in Wales", HC173, 20 Ionawr 1999, paragraff 39.

# Atodiad 2: Enghreifftiau o gynlluniau a mentrau cymorth o dan brif raglenni datblygu busnes yr Awdurdod

## Mynediad i arian

1. Ymhlith prif elfennau gweithgareddau'r Awdurdod ar gyfer hyrwyddo mynediad i ariannu mae cyfranogiad mewn cynlluniau ariannu uniongyrchol, megis y Gronfa Dyfeisgarwch a'r Gronfa Benthyciadau Bach, a chyfranogiad mewn cynlluniau cymorth, megis rhwydwaith Angylion Busnes (Xenos) a chynllun Broceri Cyfalaf Menter (Ffigur 1).

**Ffigur 1: Prif gynlluniau'r Awdurdod ar gyfer hyrwyddo mynediad i ariannu**

**<u>Enghreifftiau o Gynlluniau Ariannu Uniongyrchol</u>**

**Cronfa Dyfeisgarwch Cymru**
Menter ar y cyd rhwng yr Awdurdod a Banc NatWest yw'r gronfa cyfalaf menter hon sydd yn derbyn cymorth hefyd o'r Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewropeaidd. Ei nod yw cynorthwyo busnesau sy'n seiliedig ar dechnoleg yng Nghymru. Lansiwyd y Gronfa ym mis Tachwedd 1999 ac ar hyn o bryd mae ganddi tua £5.6 miliwn i'w fuddsoddi ledled Cymru. Gall fuddsoddi symiau rhwng £150,000 a £500,000 mewn busnesau unigol, ar gyfraddau masnachol. Mae cymorth yr Awdurdod a'r Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewropeaidd yn galluogi buddsoddiadau i gael eu gwneud mewn busnesau lle mae'r risg yn uwch na'r hyn sy'n dderbyniol i fuddsoddwyr sector preifat a lle gallai costau trafodion fod yn uchel dros ben.

**Cronfa Benthyciadau Bach**
Nod cronfa benthyciadau bach yr Awdurdod yw cynnal mentrau bach a chanolig eu maint a busnesau cymuned a hybu'r gwaith o ddatblygu mentergarwch ledled Cymru. Mae gan y gronfa £3.1 miliwn ar hyn o bryd ac mae'n rhoi benthyciadau rhwng £5,000 a £50,000. Mae'n rhaid bod ymgeiswyr yn gweithredu yng Nghymru a dylai'r benthyciad arwain at greu swyddi a/neu ddatblygiad economaidd yn y rhanbarth.

**Cronfa Technoleg a Menter**
Caiff y cynnyrch ariannol hwn a gynorthwyir gan yr Awdurdod ei weithredu gan British Steel ac mae'n cynnig pecynnau ecwiti a benthyciadau rhwng £25,000 a £150,000 i fentrau bach a chanolig sy'n datblygu dim ond yn Ne Cymru ddiwydiannol. Mae gan y gronfa tua £2 filiwn sydd ar gael i'w buddsoddi.

**<u>Cynlluniau Cymorth</u>**

**Xenos (rhwydwaith Angylion Busnes)**
Gwasanaeth cyflwyno i fusnes dros Gymru gyfan yw'r fenter hon, o dan gadeiryddiaeth Cyd-ffederasiwn Diwydiant Prydain Cymru, sy'n cysylltu buddsoddwyr â chwmnïau sy'n ceisio arian ychwanegol. Mae gan fuddsoddwyr a gofrestrir â Xenos gronfeydd o £20 miliwn a mwy i'w buddsoddi mewn mentrau bach a chanolig eu maint yng Nghymru.

**Mentor Cymru**
Mae'r cynllun hwn a gynorthwyir gan yr Awdurdod yn trefnu i weithredwyr profiadol iawn gysylltu â mentrau bach a chanolig eu maint yng Nghymru er mwyn rhoi arweiniad strategol ar greu a datblygu busnesau. Ar ôl cynnal rhaglen beilot lwyddiannus yn Ne Orllewin Cymru, bu'r Awdurdod yn ymestyn ei fenter ar gyfer mentora busnesau bach i bob rhan o gefn gwlad Cymru ym mis Chwefror 1999.

**Gwasanaeth Broceri Cyfalaf Menter**
O dan y cynllun hwn mae'r Awdurdod yn darparu ystod o gymorth ymarferol i dimau rheoli mentrau bach a chanolig eu maint yng Nghymru sydd â rhinwedd gynhenid ond mae eu ceisiadau am gyfalaf menter wedi cael eu gwrthod.

**Rhaglen Spinout Wales**
Mae'r fenter hon sy'n fenter ar y cyd gyda'r Awdurdod a cholegau prifysgol Cymru yn rhoi cymorth ar gyfer creu a datblygu busnesau newydd yn y sector addysg uwch yng Nghymru.

Ffynhonnell: Awdurdod Datblygu Cymru

## Mynediad i farchnadoedd

2. Cynorthwyo mentrau sy'n bodoli eisoes, megis hybu gwerthiannau a datblygu cyflenwyr, yn ogystal â hyrwyddo mentrau newydd, yn enwedig ym meysydd datblygu marchnadoedd tramor a chyfleoedd allforio yw dwy brif agwedd rhaglen yr Awdurdod ar gyfer mynediad i farchnadoedd. Dengys Ffigur 2 rai elfennau allweddol o'r rhaglen hon. Yn benodol mae Source Wales, sef un o fentrau'r Awdurdod, yn parhau i weithredu fel prif gynllun i fentrau bach a chanolig eu maint yng Nghymru, o ran hyrwyddo gwerthiannau a datblygu cyflenwyr.

**Ffigur 2: Elfennau allweddol o raglen yr Awdurdod ar gyfer mynediad i farchnadoedd**

**Source Wales**
Nod rhaglen Source Wales yr Awdurdod yw helpu busnesau yng Nghymru i wella eu gwerthiannau a'u proffidioldeb. Mae'n annog adeiladu cadwyni cyflenwi ar gyfer ffatrïoedd gweithgynhyrchu mawr ymhlith cwmnïau bach cynhenid yng Nghymru. Mae'n cyflawni hyn mewn dwy brif ffordd: trwy ddod o hyd i gyfleoedd cyflenwi a chyfateb cyflenwyr yng Nghymru; a thrwy helpu datblygu arbenigedd cwmnïau yng Nghymru er mwyn cyflawni gofynion prif brynwyr. Mae'n cwmpasu tua 600 o gwmnïau bach a chanddynt rhwng 20 a 40 o gyflogeion yr un.

**Cymorth i sectorau**
Mae'r Awdurdod yn rhoi cymorth ariannol i nifer o sectorau penodol yng Nghymru, gan gynnwys y sector moduro, y sector electroneg a'r sector ynni, er mwyn hyrwyddo a sicrhau buddiannau i'r tri sector hyn.

Ffynhonnell: Awdurdod Datblygu Cymru

## Trosglwyddo technoleg a dyfeisgarwch

3. Cynllun Technoleg Rhanbarthol yr Awdurdod yw'r prif elfen hollgynhwysol o'r rhaglen hon sef cyfrwng sy'n datblygu ar gyfer nodi cyfleoedd cynnyrch newydd i fusnesau yng Nghymru a rhoi fframwaith ar gyfer gweithredu. Nod y Cynllun Technoleg Rhanbarthol yw cynorthwyo busnesau bach trwy annog newid technoleg. Bellach mae dros 50 o brojectau o dan y Cynllun sy'n hybu dyfeisgarwch a thechnoleg yng Nghymru, gan roi pwyslais ar gynyddu'r defnydd o dechnoleg newydd gan fentrau bach a chanolig eu maint, gwella cysylltiadau rhwng sefydliadau academaidd trwy'r cynllun Know How

Wales, a sefydlu rhwydwaith gwybodaeth ar gyfer dyfeisgarwch a thechnoleg ledled Cymru.

## Datblygu technoleg gwybodaeth a chyfathrebu

4. Mae rhaglen yr Awdurdod ar gyfer technoleg cyfryngau'n canolbwyntio ar ddatblygu mentrau ar raddfa fawr ledled Cymru sydd â'r nod o gynyddu'r defnydd o dechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu er budd busnesau yng Nghymru.  Mae pedwar amcan allweddol i'r rhaglen sef:

   - hybu'r galw am systemau gwybodaeth a chyfathrebu newydd trwy fentrau 'arweiniol' mawr;
   - symbylu'r cyflenwad o dechnoleg cyfryngau newydd trwy hyrwyddo datblygiad busnesau a gwasanaethau cymorth cynhenid mewn meysydd systemau gwybodaeth a chysylltiadau;
   - gwella'r seilwaith telathrebu mewn ardaloedd gwledig; a
   - datblygu galluoedd a mecanweithiau sefydliadol er mwyn manteisio ar dechnoleg newydd.

5. Mae tair elfen allweddol i raglen technoleg cyfryngau'r Awdurdod sef: gweithredu strategaeth a chynlluniau gweithredu Cymdeithas Gwybodaeth Cymru; strategaeth a chynlluniau gweithredu; gwella rhwydweithiau telathrebu gwledig; a datblygu busnesau a gwasanaethau cymorth ym maes technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (Ffigur 3).

**Ffigur 3 Elfennau allweddol o raglen technoleg cyfryngau'r Awdurdod**

**Gweithredu strategaeth a chynlluniau gweithredu Cymdeithas Gwybodaeth Cymru**

**Cymdeithas Gwybodaeth Cymru**
Nod y fenter hon yw codi ymwybyddiaeth o dechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu a gwella mynediad iddi ledled Cymru, a thrwy hynny helpu i wella cystadleugarwch busnes, hyrwyddo addysg a hyfforddiant, trawsnewid gwasanaethau cyhoeddus a datblygu arferion telegymudo a theleweithio. Lluniwyd tua 45 gynlluniau gweithredu o dan y fenter hon a'r bwriad yw y cânt eu mabwysiadu a'u gweithredu gan ystod eang o gyrff o dan drefniadau partneriaeth. Mae'r Awdurdod a'r Comisiwn Ewropeaidd fel ei gilydd yn rhoi arian i gynnal y fenter hon.

**Mentrau Cymdeithasau Gwybodaeth Lleol**
Mae'r Awdurdod yn cynorthwyo neu'n cymryd rhan wrth hyrwyddo nifer o fentrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu yng Nghymru, wedi eu targedu'n benodol at fentrau bach a chanolig eu maint. Ymhlith yr enghreifftiau o brojectau penodol mae:

- Menter Sgiliau Cynghorwyr, sydd â'r nod o gynyddu cystadleugarwch busnesau bach a chanolig eu maint;
- project Information Gateway De Orllewin Cymru, sy'n cysylltu mentrau bach a chanolig eu maint â sefydliadau addysg uwch, darparwyr gwasanaethau arbenigol a'r rhyngrwyd;
- Datblygu Cyflogaeth ym mhroject y Gymdeithas Gwybodaeth, sy'n astudio effaith y 'gymdeithas gwybodaeth' ar gyflogaeth mewn mentrau bach a chanolig sydd â'r nod o ddatblygu strategaethau ar gyfer datblygu sgiliau a gwella cyfleoedd twf yn y busnesau hyn.

**Gwella rhwydwaith telathrebu Cymru Wledig**

**Llwybr Strand 6**
Mae'r Awdurdod a'r Comisiwn Ewropeaidd yn ariannu'r project hwn ar y cyd, sydd â'r nod o gysylltu tua 15,000 o fentrau bach a chanolig eu maint yng Nghymru wledig â gwasanaethau a defnyddiau telathrebu.

**Rhwydwaith symudol**
Mae'r Awdurdod yn ymchwilio i dechnoleg gyfredol symudol a gosod, a'r cyfleoedd dros ddefnyddio datblygiadau o fewn technoleg cyfathrebu symudol newydd a fydd ar gael yn fuan.

**Datblygu busnesau a gwasanaethau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu**
Mae'r Awdurdod yn cynorthwyo wrth ddatblygu busnesau a gwasanaethau ym meysydd technoleg gwybodaeth a chyfathrebu ac aml-gyfryngau yng Nghymru trwy nifer o brojectau, mewn partneriaeth â gwahanol gyrff sector cyhoeddus a phreifat.

Ffynhonnell: Awdurdod Datblygu Cymru

## Datblygu sgiliau a mentergarwch

6. Mae'r Awdurdod yn cynorthwyo nifer o fentrau o dan ei raglen sgiliau a mentergarwch. Ymhlith y mentrau allweddol a ddatblygwyd mewn partneriaeth â chyrff eraill mae Cynllun Gweithredu Mentergarwch Cymru a rhwydwaith Cyswllt Busnes Cymru (Ffigur 4). Yn ogystal, mae'r Awdurdod yn rhoi cymorth i brojectau penodol i gynyddu cyfleoedd cyflogaeth sy'n cynnwys: cymorth i fentrau bach a chanolig eu maint i ddatblygu cydraddoldeb ymhlith dynion a merched yn y gweithle; project i gynyddu cyflogadwyedd graddedigion mewn busnesau yng Nghymru; project i helpu mentrau bach a chanolig eu maint i fuddsoddi yn natblygiad proffesiynol parhaus eu graddedigion o fewn eu gweithle.

**Ffigur 4: Mentrau allweddol o dan raglen sgiliau a mentergarwch yr Awdurdod**

**Cynllun Gweithredu Mentergarwch**
Mae'r Awdurdod wedi arwain a chynnal y gwaith o ddatblygu Cynllun Gweithredu Mentergarwch er mwyn helpu creu busnesau cynhenid yng Nghymru a chynorthwyo eu twf. Yn dilyn proses ymgynghorol ddiwedd 1999, cyflwynwyd y cynllun gweithredu i'r Cynulliad Cenedlaethol ym mis Chwefror 2000 gan y Grŵp Llywio Cynllun Gweithredu Mentergarwch sy'n cynnwys aelodau o'r sector preifat, y sector addysg, llywodraeth leol, busnes, yr Awdurdod a'r Cynulliad. Mae'r Awdurdod hefyd yn rhoi cymorth gweithredol i Grŵp Llywio'r Cynllun Gweithredu Mentergarwch

**Cyswllt Busnes Cymru**
Rhwydwaith cyffredinol sy'n darparu gwasanaethau gwybodaeth a chyngor ar yr ystod o gymorth sydd ar gael i fentrau yng Nghymru yw Cyswllt Busnes Cymru. Mae'n cwmpasu nifer o sefydliadau sy'n gweithio mewn partneriaeth i ddarparu mynediad unigol i seilwaith cymorth busnes ar gyfer y sawl sy'n ceisio sefydlu busnes newydd yng Nghymru, neu ar gyfer busnesau wedi eu sefydlu sydd am gael gwybodaeth a chyngor am y gwasanaethau sydd ar gael. Cyfleuster sy'n cynghori, rhoi gwybodaeth a chyfeirio dros y ffôn ydyw yn ei hanfod am y gwasanaethau cymorth busnes sydd ar gael yng Nghymru. Lansiwyd Cyswllt Busnes Cymru ym 1996 ac fe'i had-drefnwyd ym 1999/2000 er mwyn gwella safon ei wasanaethau a chodi ymwybyddiaeth o'r rhwydwaith ymhlith y cyhoedd. Mae pob un o'r prif awdurdodau cymorth busnes yng Nghymru yn ymwneud â Chyswllt Busnes Cymru, gan gynnwys y Cynulliad, yr Awdurdod, y Cynghorau Hyfforddiant a Menter, awdurdodau lleol, asiantaethau menter, siambrau masnach a Chanolfan Amgylchedd Cymru. Business Connect Wales Ltd sy'n goruchwylio'r rhwydwaith sef cwmni preifat a sefydlwyd ym mis Mawrth 1999 ac a reolir gan fwrdd o gyfarwyddwyr o'r byd busnes sy'n atebol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Mae'r Awdurdod yn rhoi cymorth gweithredol i fwrdd cyfarwyddwyr Cyswllt Busnes Cymru Cyf.

**Cynllun Gweithredu ar gyfer Hyfforddiant Gweithgynhyrchu yng Nghymru**
Mae'r Awdurdod yn bartner yn y fenter hon, ar y cyd â'r Cynghorau Hyfforddiant a Menter, Cyd-ffederasiwn Diwydiant Prydain Cymru, Cynghorau Addysg Bellach ac Uwch, Cyngres Undebau Llafur Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, Awdurdod Cymwysterau, Cwricwlwm ac Asesu a'r Gymdeithas Gwasanaethau Gyrfaol. Sefydlwyd y fenter ym 1997 ac fe'i cydlynir gan y Cyngor Cynghorau Hyfforddiant a Menter. Mae'r cynllun yn cwmpasu ystod o weithgareddau sydd wedi eu hanelu at hyrwyddo ac annog hyfforddiant gweithgynhyrchu mewn ysgolion, colegau, prifysgolion a'r gweithle.

Ffynhonnell: Awdurdod Datblygu Cymru

## Cynorthwyo'r sector amaeth-fwyd

7. Mae'r Awdurdod yn gweithredu cynllun cymorth penodol ar gyfer y sector amaeth-fwyd yng Nghymru. Mae pum prif amcan i'r rhaglen sef: datblygu a gweithredu cynllun ar gyfer hybu a marchnata cynnyrch bwyd a diodydd â brand Cymreig; nodi cyfleoedd marchnad ar gyfer y cynnyrch hyn; cynorthwyo yn y gwaith o gasglu a dosbarthu gwybodaeth am farchnadoedd; cyfrannu at welliannau ansawdd yn y gadwyn fwyd yng Nghymru; a chydlynu cynlluniau o fewn fframwaith y Bartneriaeth Amaeth-Fwyd. Mae rhaglen amaeth-fwyd yr Awdurdod yn gweithredu ledled Cymru ac yng Nghanolbarth Cymru yn benodol. Noda Ffigur 5 rai elfennau allweddol yn rhaglen cymorth yr Awdurdod.

**Ffigur 5: Elfennau allweddol yn rhaglen amaeth-fwyd yr Awdurdod**

**Welsh Food Promotions Ltd**
Ar 1 Hydref 1998, ar yr un dyddiad pan gafodd yr Awdurdod estynedig ei greu, derbyniodd yr Awdurdod berchenogaeth Welsh Food Promotions Limited a'i is-gwmnïau (Livestock Marketing Limited, Taste of Wales (Retail) a Taste of Wales Limited). Roedd Welsh Food Promotions yn hybu gwerthiant a defnydd o fwyd Cymreig a chafodd ei ariannu'n bennaf gan yr Awdurdod, y Swyddfa Gymreig gynt, yr hen Fwrdd Datblygu ar gyfer Cymru Wledig a Bwrdd Croeso Cymru. Integreiddiwyd swyddogaethau Welsh Food Promotions a'i is-gwmnïau yn rhaglen amaeth-fwyd yr Awdurdod.

**Partneriaeth Amaeth-Fwyd**
Mae hon yn bartneriaeth a leolir yn rhanbarthol a ledled Cymru. Fe'i sefydlwyd ym 1998 gyda chymorth yr Awdurdod er mwyn gwthio'r gwaith o ddatblygu'r sector amaeth-fwyd ymlaen. Lluniwyd cynlluniau gweithredu ar gyfer cig oen a chig eidion, bwydydd llaeth ac organig gan weithgorau'r diwydiant a'r Bartneriaeth a fydd yn eu gweithredu. Mae aelodau o'r Bartneriaeth yn dod o'r sector cyhoeddus a'r sector preifat.

**Prif gynlluniau Cymru gyfan**
Yn ogystal â chynorthwyo'r Bartneriaeth Amaeth-Fwyd, mae'r Awdurdod yn cynorthwyo'r gwaith o hybu a marchnata cig eidion a chig oen Cymreig, hybu cyfleoedd ar gyfer cydweithrediad rhwng cynhyrchwyr a dosbarthwyr bwyd, gan gynorthwyo yn y gwaith o sefydlu grwpiau cynhyrchwyr bwyd arbenigol. Mae'r Awdurdod hefyd wedi ail-lansio cynllun croeso Blas ar Gymru mewn partneriaeth â Bwrdd Croeso Cymru.

**Mentrau Canolbarth**
Mae'r Awdurdod yn cynorthwyo ystod eang o fentrau partneriaeth a mentrau ar y cyd yn bennaf sy'n cynnwys cyngor ac arfer da busnes i ffermwyr, hyfforddiant a datblygu projectau ar gyfer ffermwyr, a chymorth ar gyfer proseswyr bwyd.

Ffynhonnell: Awdurdod Datblygu Cymru

# Atodiad 3: Prif gyrff sector cyhoeddus neu sector preifat sy’n rhoi cymorth i fusnesau cynhenid yng Nghymru

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gyfrifol am ddatblygu polisi economaidd yng Nghymru. Y Cynulliad hefyd sy’n cyflwyno nifer o raglenni cymorth i fusnesau, sef cynlluniau grant yn bennaf. Un o’r prif gynlluniau hyn yw Cymorth Dethol Rhanbarthol, sydd â’r nod o leihau’r gwahaniaethau o ran cyfleoedd cyflogaeth rhwng ardaloedd a gynorthwyir ac ardaloedd nad ydynt yn ardaloedd a gynorthwyir yng Nghymru trwy roi grantiau i gynnal projectau mewn ardaloedd a gynorthwyir sy’n creu neu’n diogelu swyddi ac na fyddant yn digwydd yn yr ardaloedd hyn oni fyddant yn cael cymorth. Mae Cymorth Dethol Rhanbarthol ar gael i fusnesau waeth a ydynt yn fusnes newydd neu’n bodoli eisoes, yn fusnes cynhenid neu’n fusnes tramor. Ymhlith y cymorth arall mae grantiau i annog dyfeisgarwch ac ystod o wasanaethau masnachu tramor i helpu busnesau yng Nghymru allforio.

**Awdurdod Datblygu Cymru**
Mae Awdurdod Datblygu Cymru yn gyfrifol am hybu Cymru fel lleoliad ar gyfer busnes, datblygu ac ennyn cystadleugarwch ymhlith busnesau yng Nghymru, darparu tir ac eiddo i fusnesau, adfer tir diffaith, gwella’r amgylchedd, a datblygiad economaidd a chymdeithasol yng Nghymru. Mae’r Awdurdod yn darparu ystod eang o wasanaethau cymorth mewn ardaloedd a rhanbarthau busnes penodol ledled Cymru. Ymhlith y gwasanaethau a ddarperir mae hyrwyddo cyfleoedd cadwyn gyflenwi (Source Wales), gwasanaethau datblygu busnes, gwahanol brojectau i annog newid technoleg a chynlluniau i wella cyflenwad arian i fusnesau.

**Awdurdodau Unedol**
Mae 22 Awdurdod Unedol yng Nghymru yn gyfrifol, fel rhan o’u cyfrifoldebau, am hybu datblygiad economaidd yn eu hardaloedd. Maent yn gweithio’n agos â’r Awdurdodau Menter Lleol wrth roi cymorth i fusnesau lleol ac ymgymryd ag ystod o weithgareddau gan gynnwys rhoi grantiau a benthyciadau i fusnesau bach a newydd a darparu gweithdai.

**Cynghorau Hyfforddiant a Menter**

Mae 4 Cyngor Hyfforddiant a Menter yng Nghymru sy’n rheoli ystod o gynlluniau i symbylu menter a chynorthwyo mentrau bach a chanolig eu maint i wella eu cystadleugarwch. Mae’r Cynghorau Hyfforddiant a Menter yn gyfrifol am ystyried anghenion lleol eu hardal, yn seiliedig ar farn eu byrddau (mae’r rhan fwyaf ohonynt yn aelodau di-dâl o’r gymuned). Caiff gweithgareddau’r Cynghorau eu rheoli o dan gontract i’r Cynulliad a’u cyflwyno trwy’r contractau o fewn yr Awdurdodau Menter Lleol a darparwyr sector preifat eraill.

**Awdurdodau Menter Lleol**

Mae 15 Awdurdod Menter Lleol yng Nghymru yn arbenigo ar reoli a chyflwyno gwasanaethau cymorth allweddol i fusnesau bach, yn enwedig microfusnesau (sy’n cyflogi llai na 10 o bobl) a busnesau newydd. Mae’r awdurdodau yn cael arian gan nifer o ffynonellau gan gynnwys yr awdurdodau lleol, y Cynghorau Hyfforddiant a Menter (o dan drefniadau is-gontract) a’r sector preifat.

**Bwrdd Croeso Cymru**
Bwrdd Croeso Cymru yw’r awdurdod arweiniol ar gyfer rhoi cymorth ar gyfer datblygu a marchnata’r diwydiant twristiaeth yng Nghymru. Mae’r Bwrdd yn darparu ystod o wasanaethau ymgynghorol, grantiau ar gyfer projectau datblygu a chymorth ymchwil a marchnata. Mae’r Bwrdd yn gweithio mewn partneriaeth â’r awdurdodau statudol, awdurdodau unedol y sector preifat a chyrff eraill.

Ffynhonnell: Cynulliad Cenedlaethol Cymru ac Awdurdod Datblygu Cymru

# Atodiad 4: Rhaglenni datblygu a ariennir gan Ewrop ac a weinyddir gan y Cynulliad yng Nghymru

## Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd

1. Y Cynulliad sydd yn bennaf gyfrifol am weinyddu rhaglenni Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd neu am drefnu i awdurdodau lleol, cyrff cyhoeddus a sefydliadau eraill eu gweinyddu. Defnyddir y cronfeydd i gyd-ariannu gweithgareddau datblygu economaidd gan y gwahanol gyrff hyn. Mae rhaglenni Cronfeydd Strwythurol yn rhoi cymorth ariannol i helpu ymladd yn erbyn gwahaniaethau rhanbarthol o ran ffyniant economaidd a'u nod yn y pen draw yw creu swyddi.

2. Ar gyfer y cyfnod rhwng 1994 a 1999, dyrannwyd tua £400 miliwn i raglenni Cronfeydd Strwythurol a oedd yn gweithredu yng Nghymru, a thargedwyd y rhan helaeth ohonynt ar gyfer creu swyddi trwy ddatblygu mentrau bach a chanolig eu maint ac ar gyfer datblygu ardaloedd gwledig. Diwygiwyd map Cronfeydd Strwythurol y Comisiwn Ewropeaidd a map Ardaloedd y Deyrnas Gyfunol a Gynorthwyir ar gyfer y cyfnod 2000-2006, gan gynnwys pennu Gorllewin Cymru a chymoedd De Cymru'n rhanbarthau cymharol economaidd ddifreintiedig yn ffurfiol (sef statws "Amcan 1" fel y gelwir). Mae tua £1.2 biliwn o arian Amcan 1 ar gael o'r Undeb Ewropeaidd.

## Cymorth Dethol Rhanbarthol

3. Cymorth Dethol Rhanbarthol a weinyddir gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru (y Cynulliad) mewn partneriaeth â nifer o sefydliadau, gan gynnwys yr Awdurdod, y Cynghorau Hyfforddiant a Menter a'r awdurdodau lleol yw'r prif ddull unigol o gymorth ariannol sydd ar gael i fusnesau cynhenid a mewnfuddsoddwyr fel ei gilydd. Yn y degawd rhwng 1988 a 1998 gwariodd y Swyddfa Gymreig tua £500 miliwn o Gymorth Dethol Rhanbarthol ar brojectau a oedd yn creu a diogelu swyddi ac yn gwneud buddsoddiad gwariant cyfalaf mewn Ardaloedd a Gynorthwyir yng Nghymru.